student finance wales
cyllid myfyrwyr cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ydych chi'n ystyried mynd i brifysgol yn 2012/13?
Canllaw cyflym

© Hawlfraint y Goron • Ionawr 2012
WG 14713

Cynnwys

Ydych chi'n ystyried astudio'n llawn-amser yn y brifysgol yn 2012/13? 1

- Benthyciad (Cynhaliaeth) costau byw 2
- Grant Dysgu'r Cynulliad 2
- Grant Dysgu'r Cynulliad a hawliau Benthyciad Cynhaliaeth 3
- Cyfraddau llog 4
- Ad-dalu eich benthyciadau 5
- Gofynion y cwrs 5

Ydych chi'n ystyried astudio'n rhan-amser yn y brifysgol yn 2012/13? 6

- Grant Ffioedd 7
- Grant Cwrs 8
- Astudio gyda'r Brifysgol Agored 9
- Astudio yn Lloegr 9
- Gofynion y cwrs 9

Cysylltiadau defnyddiol 10

Ydych chi'n ystyried astudio'n llawn-amser yn y brifysgol yn 2012/13?

O fis Medi 2012 bydd prifysgolion a sefydliadau eraill sy'n darparu cyrsiau addysg uwch yn gallu codi hyd at £9,000 y flwyddyn am eu cyrsiau llawn-amser.

Os ydych yn dod o Gymru ac yn astudio ar gyfer eich gradd gyntaf neu gwrs arall ar lefel addysg uwch ni fydd angen i chi dalu eich ffioedd dysgu ymlaen llaw.

Mae benthyciad ffioedd dysgu a grant ffioedd newydd ar gael oddi wrth Llywodraeth Cymru drwy Gyllid Myfyrwyr Cymru. Cewch hefyd gymorth â'ch costau byw.

Dim costau ymlaen llaw

- Nid oes yn rhaid i chi dalu am eich cwrs ymlaen llaw.
- Gallwch gael benthyciad ffioedd dysgu o hyd at £3,465 y flwyddyn i dalu costau cychwynnol eich cwrs. Ni fydd yn rhaid i chi ddechrau ad-dalu'r benthyciad hwn hyd nes y byddwch yn ennill dros £21,000 y flwyddyn. Gallwch hefyd gael **grant ffioedd newydd** a fydd yn talu gweddill eich ffioedd dysgu, hyd at £9,000, lle bynnag y byddwch yn astudio yn y DU.
- Bydd swyddfa cyllid myfyrwyr eich awdurdod lleol yn asesu os ydych yn gymwys i dderbyn cymorth a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr fydd yn delio â'ch taliadau chi.

Benthyciad (Cynhaliaeth) costau byw

- Mae benthyciad ar gael i'ch helpu â chostau byw fel bwyd, llety a theithio.
- Bydd y swm y gallwch ei fenthyg yn dibynnu ar le y byddwch yn byw ac yn astudio, ac ar incwm eich cartref.
- Bydd benthyciad o hyd at £4,745 y flwyddyn ar gael os byddwch yn byw oddi cartref ac yn astudio tu allan i Lundain.
- Bydd benthyciad uwch o hyd at £6,648 y flwyddyn ar gael os byddwch yn byw oddi cartref ac yn astudio yn Llundain.
- Bydd benthyciad o hyd at £3,673 y flwyddyn ar gael os byddwch yn byw gyda'ch rhieni.
- Gallai hyd at £1,500 o'ch benthyciad costau byw gael ei waredu, yn amodol ar gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Grant Dysgu'r Cynulliad

- Mae'r grant ar gael i'ch helpu a'ch costau byw fel bwyd, llety a theithio.
- Nid oes yn rhaid i'r grant gael ei ad-dalu.
- Bydd y swm y byddwch yn ei dderbyn yn dibynnu ar incwm eich cartref.
- Os yw incwm eich cartref yn £18,370 y flwyddyn neu'n llai bydd gennych hawl i grant llawn o £5,000 y flwyddyn.
- Os yw incwm eich cartref rhwng £18,370 a £50,020 y flwyddyn byddai gennych hawl i grant o rhwng £50 a £5,000 y flwyddyn.

Grant Dysgu'r Cynulliad a hawliau Benthyciad Cynhaliaeth

Incwm y Cartref	**Grant Dysgu'r Cynulliad**	**Benthyciad Cynhaliaeth** byw i ffwrdd o'ch cartref ac astudio tu allan i Lundain (hyd at £4,745)	**Benthyciad Cynhalieth** byw i ffwrdd o'ch cartref ac astudio yn Llundain (hyd at £6,648)	**Benthyciad Cynhaliaeth** byw yng nghartref eich rhieni (hyd at £3,673)
£18,370	£5,000	£1,901	£3,804	£829
£25,000	£3,242	£2,800	£4,703	£1,728
£30,000	£2,033	£3,526	£5,429	£2,454
£34,000	£1,106	£4,082	£5,985	£3,010
£40,000	£711	£4,319	£6,222	£3,247
£45,000	£381	£4,517	£6,420	£3,445
£50,020	£50	£4,715	£6,618	£3,643

Cyfraddau llog

Mae'r tabl isod yn dangos rhai cyflogau a'r ad-daliadau arferol.

Cyflog	Swm y cyflog y caiff y 9% ei dynnu oddi amo	Ad-daliad misol
£25,000	£4,000	£30.00
£30,000	£9,000	£67.50
£35,000	£14,000	£105.00
£40,000	£19,000	£142.50
£45,000	£24,000	£180.00
£50,000	£29,000	£217.50
£55,000	£34,000	£255.00
£60,000	£39,000	£292.50

- Y gyfradd chwyddiant ynghyd â 3% a godir ar eich benthyciad tra'ch bod yn astudio a hyd at y mis Ebrill ar ôl i chi adael y brifysgol neu'r coleg.
- O'r mis Ebrill ar ôl i chi adael eich cwrs, caiff llog ei godi fel a ganlyn:

  ar y gyfradd chwyddiant os byddwch yn ennill llai na £21,000
  ar y gyfradd chwyddiant ynghyd â hyd at +3% ar raddfa sy'n codi'n raddol os byddwch yn ennill rhwng £21,000 a £41,000
  ar y gyfradd chwyddiant ynghyd â +3% os byddwch yn ennill dros £41,000.

Ad-dalu eich benthyciadau

- Ni fyddwch yn dechrau ad-dalu eich benthyciadau hyd nes y byddwch yn ennill dros £21,000 y flwyddyn.
- Os bydd eich incwm yn lleihau yn is na £21,000 bydd eich ad-daliadau yn dod i ben, er enghraifft os byddwch yn cymryd seibiant gyrfa neu'n ddi-waith hyd nes y byddwch yn dechrau ennill dros £21,000 eto.
- Byddwch yn ad-dalu 9% o'ch incwm sydd uwchlaw £21,000. Bydd y swm yr ydych yn ei ad-dalu yn dibynnu ar faint y byddwch yn ennill. Er enghraifft, os byddwch yn ennill £25,000, ni fyddai'r 9% ond yn berthnasol i £4,000. Byddwch felly'n ad-dalu £30 y mis.
- Caiff eich holl fenthyciadau myfyrwyr eu cyfuno a chaiff ad-daliad unigol ei dynnu o'ch cyflog, drwy'r system dreth gan amlaf.
- Caiff unrhyw falans sy'n weddill ar ôl 30 o flynyddoedd ei waredu.

Gofynion y cwrs

Rhaid i chi fel unigolyn fod yn gymwys i gael cymorth, ond rhaid hefyd bod eich cwrs wedi cael ei neilltuo ar gyfer derbyn cymorth i fyfyrwyr llawn-amser gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Rhaid bod eich cwrs yn gwrs addysg uwch mewn coleg neu brifysgol yn y DU sy'n derbyn arian cyhoeddus, neu'n gwrs dynodedig penodol mewn sefydliad sy'n cael ei ariannu'n breifat.

Ydych chi'n ystyried astudio'n rhan-amser yn y brifysgol yn 2012/13?

Os ydych chi'n byw yng Nghymru fel arfer ac yn astudio'n rhan-amser, bydd y pecyn gymorth sydd eisoes ar gael i fyfyrwyr yn dal i gael ei gynnig ar gyfer blwyddyn academaidd 2012/13.

Bydd myfyrwyr rhan-amser cymwys yn dal i allu gwneud cais ar gyfer y canlynol, a fydd yn dibynnu ar brawf modd:

- grant ffioedd
- grant cwrs i dalu am lyfrau, teithio a chostau eraill
- cymorth wedi'i dargedu o fath arall, ar ffurf Grant Gofal Plant, Grant Oedolion Dibynnol, Lwfans Dysgu Rhieni a Lwfans Myfyrwyr Anabl.

Mae'r grantiau ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru, drwy gyfrwng ei phartneriaid Cyllid Myfyrwyr Cymru, awdurdodau lleol Cymru (sy'n asesu'r ceisiadau) a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (sy'n gwneud y taliadau).

Grant Ffioedd

Efallai y gallech chi gael Grant Ffioedd i helpu i dalu am y ffioedd dysgu sy'n cael eu codi gan eich prifysgol neu goleg.

Faint y gallwch chi ei gael?

Mae cyfanswm y Grant Ffioedd sydd ar gael i chi yn dibynnu ar ddwyster eich cwrs. Mae'r tabl hwn yn dangos uchafswm y Grant Ffioedd y gallwch chi ei gael.

Dwyster y cwrs o'i gymharu â'r cwrs llawn-amser cyfatebol	Uchafswm y Grant Ffioedd a gynygir
50% – 59%	£690
60% – 74%	£820
75% neu fwy	£1,025

Mae'r cyfanswm y gallwch chi ei gael yn dibynnu hefyd ar eich incwm chi ac incwm eich rhieni neu bartner.

Incwm y Cartref	Swm y Grant Ffioedd
Llai na £16,865	Grant Ffioedd Llawn
£16,866 i £25,434	Grant Ffioedd Rhannol (£50 o leiaf)
Mwy na £25,435	Dim Grant Ffioedd

Grant Cwrs

Gall y Grant Cwrs eich helpu i dalu am lyfrau, teithio a chostau eraill.

Faint y gallwch chi ei gael?

Gallwch chi gael hyd at £1,155 o Grant Cwrs. Mae'r cyfanswm y gallwch chi ei gael yn dibynnu ar eich incwm chi ac incwm eich rhieni neu bartner.

Incwm y Cartref	Swm y Grant Cwrs
Llai na £26,095	Grant Ffioedd Llawn
£26,096 i £28,180	Grant Ffioedd Rhannol (£50 o leiaf)
Mwy na £28,180	Dim Grant Ffioedd

Cymorth ychwanegol

Efallai y byddwch chi'n gymwys i wneud cais am gymorth arall wedi'i dargedu sy'n dibynnu ar brawf modd, ar ffurf Grant Gofal Plant, Grant Oedolion Dibynnol a Lwfans Dysgu Rhieni.

Os oes gennych anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol, efallai y byddwch hefyd yn gymwys i gael y Lwfans Myfyrwyr Anabl.

Astudio gyda'r Brifysgol Agored

Os ydych chi'n bwriadu astudio gyda'r Brifysgol Agored, dylech wneud cais yn uniongyrchol iddyn nhw am eich Grant Ffioedd a'ch Grant Cwrs. Mae gan y Brifysgol Agored ei ffurflen gais ei hun a dylech gysylltu â Thîm Cymorth Ariannol y Brifysgol Agored naill ai drwy'r e-bost **generalenquiries@open.ac.uk** neu dros y ffôn ar **01908 653 411**.

Astudio yn Lloegr

Os byddwch chi'n penderfynu astudio'n rhan-amser mewn prifysgol tu allan i Gymru, dylech sylweddoli na fydd y cymorth a fydd yn cael ei gynnig i chi yn cynnwys Grant Ffioedd. Ond, bydd yr yn symiau o'r mathau eraill o gymorth yn cael eu cynnig, ble bynnag yn y DU y byddwch chi'n dewis astudio. Gallai'r ffioedd sy'n cael eu codi am astudio'n rhan-amser mewn sefydliadau yn Lloegr yn 2012 fod dipyn uwch na'r ffioedd a godwyd ar gyfer blynyddoedd academaidd blaenorol.

Gofynion y cwrs

Rhaid i chi fel unigolyn fod yn gymwys i gael cymorth, ond rhaid hefyd bod eich cwrs wedi cael ei neilltuo ar gyfer derbyn cymorth i fyfyrwyr rhan-amser gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Rhaid bod eich cwrs yn gwrs addysg uwch mewn coleg neu brifysgol yn y DU sy'n derbyn arian cyhoeddus, neu'n gwrs dynodedig penodol mewn sefydliad sy'n cael ei ariannu'n breifat.

Cysylltiadau defnyddiol

- Gwefan Cyllid Myfyrwyr Cymru
  www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk
- Canolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru
  0845 602 8845 rhwng 8am ac 8pm ar ddydd Llun i ddydd Gwener neu rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn.